

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Panel Cyllid, 11/02/20

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr W.L.Davies (Cadeirydd), S.Sage, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R.Thomas

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr C. Larsen, C.Williams

2. Datgan Buddiant Personol

Y Cynghorydd I.C.Thomas – eitem 4(ii) ar y cofnodion. Gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth.

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

(a) Monitro Gwariant

Nodwyd nad oedd sustem mewn lle er mwyn monitro sut roedd mudiadau yn gwario'r arian roeddynt wedi ei dderbyn. Byddai hyn yn amhosib efo sefydliadau mawr a chenedlaethol, ond gall hyn ddigwydd efo rhai lleol.

Penderfynwyd (unfrydol) i ofyn am adroddiad gan sefydliadau lleol o ran sut roeddynt yn gwario'r arian roeddynt wedi ei dderbyn.

(b) Ceisiadau Hwyr

Nododd y Clerc fod dau gais hwyr wedi ei dderbyn, sef gan Seindorf Arian Llanrug a Grŵp Carnifal Caernarfon.

Penderfynwyd (unfrydol):

- (1) I fynegi siomedigaeth fod y ceisiadau hyn wedi dod i mewn yn hwyr.**
- (2) Caniatáu trafodaeth ar y ceisiadau gan fod arian ar eu cyfer yn yr Amcangyfrifon, a'u bod yn geisiadau lleol i ardal Caernarfon, ond i ddatgan na fydd hyn yn cael ei ganiatáu eto.**
- (3) Gofyn i'r Clerc ysgrifennu at sefydliadau efo dyddiad cau blynyddol ar gyfer derbyn ceisiadau.**

4. Ceisiadau Ariannol

Penderfynwyd ar y taliadau canlynol (unfrydol):

Enw	Swm	Talu allan o
(i) Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai	£50	Pot "Arall"
(ii) Cymdeithas Ddinesig Caernarfon	£500	£200 o'r Amcangyfrifon a £300 o'r Pot "Arall"
(iii) Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, 2020	£250	Amcangyfrifon
(iv) Dawns i Bawb	£100	Pot "Arall"
(v) Gŵyl Arall	£1,000	Amcangyfrifon
(vi) CARN	£750	Pot "Arall" / Balansau
(vii) Gŵyl Caernarfon	£3,000 am eleni, ond gofyn i'r Clerc dderbyn adroddiad gennynt erbyn mis Hydref o ran yr adloniant roeddynt yn ei ddarparu, eu costau dyddiol a faint o bob oedd yn mynychu'r Wyl.	Amcangyfrifon
(viii) Gŵyl Fwyd Caernarfon	£4,000	Amcangyfrifon
(ix) Canolfan Noddfa	<p>Nodwyd fod y panel hwn wedi penderfynu, yn ei gyfarfod ar yr 22ain o Hydref, 2019 i ohirio gwneud penderfyniad, a gofyn am esboniad o'r £161,000 yn y cyfrifon, Erbyn hyn roedd llythyr wedi ei dderbyn gan W.J. Matthews yn datgan mai "designated funds" oedd y mwyafrif o'r arian, a bod yr arian oedd ar gael yn sylweddol is, ac yn disgyn dros amser.</p> <p>Penderfynwyd cyfrannu £1,500</p>	Amcangyfrifon

(x) CPD Tref Caernarfon	Penderfynwyd trafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin gan nad oedd yr holl wybodaeth wedi dod i law.	N/A
(xi) Clwb y Canaries	£200, ar yr amod fod y Clerc yn derbyn manylion am yr incwm a'r gwariant ar gyfer y digwyddiad, ac hefyd manylion o'r costau yn dilyn y digwyddiad.	Pot "Arall"
(xii) Seindorf Arian Llanrug	£600, ond datgan na fydd ceisiadau hwyr fel hyn yn cael eu hystyried o hyn allan.	Amcangyfrifon
(xiii) Grŵp Carnifal Caernarfon	£1,000, ond datgan na fydd ceisiadau hwyr fel hyn yn cael eu hystyried o hyn allan.	Amcangyfrifon

Gorffennodd y cyfarfod am 6.10 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____